**SF/LA/2323/12 - DOC2: Welsh Language Partnership Council**

**STANDING ORDERS**

## 1. Introduction

1.1. The Welsh Language Partnership Council ("the Partnership Council") is established under section 149 of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 ("the Measure").

1.2. Section 149 makes provisions about the establishment and composition of the Partnership Council and the appointment of its members. It also requires Welsh Ministers to make standing orders for the Partnership Council, following consultation with the members of the Partnership Council.

## 2. Membership

2.1 The members of the Partnership Council are;

2.1.1 the Welsh Minister with responsibility for the Welsh language; and

2.1.2 persons appointed by the Welsh Ministers from among

(i) the Welsh Ministers,

(ii) the Deputy Welsh Minsters,

(iii) persons who appear to the Welsh Minsters to have experience of matters relating to the Welsh language, and

(iv) persons who appear to the Welsh Minsters to have experience relevant to the giving of advice or the making of representations in relation to the Welsh language strategy adopted under section 78 of the Government of Wales Act 2006 (including the plan setting out how the Welsh Ministers will implement the strategy) and doing anything which the Partnership Council considers appropriate for the purposes of giving that advice or making such representations.

## 3. Chairing of meetings

3.1. The Measure provides that the Welsh Minister with responsibility for the Welsh language ('the responsible Minister') will chair the

Partnership Council.

3.2. If the responsible Minister cannot attend, the meeting must be cancelled.

3.3. But, if the responsible Minister cannot attend, and the circumstances are such that there is insufficient time to cancel the meeting, the Partnership Council will be chaired by a senior official from the Welsh Government.

## 4. Meeting Arrangements

4.1. The Partnership Council will meet at least three times a year, during the Summer, Autumn and Spring terms. The responsible Minister will convene the meetings and may arrange further meetings if the Minister deems it necessary.

4.2. Other Welsh Ministers may be invited to Partnership Council meetings by the responsible Minister, if matters relating to their Ministerial portfolio are included in the agenda.

4.3. Officials from Welsh Government departments may attend from time to time (as non-members) to offer expertise and advice to assist the Partnership Council in its work.

4.4. The Welsh Language Division shall act as secretariat to the Partnership Council its officials are entitled to attend all meetings (as non-members), and participate as required by the responsible Minister. They will distribute meeting minutes and papers as required.

4.5. Partnership Council meetings will be held in a Welsh Government or National Assembly for Wales office.

4.6. Meetings of the Partnership Council will be held in private, but the responsible Minister may invite members of the public to address the Partnership Council if the Minister deems it necessary.

## 5. Welsh Language Partnership Council's Remit

5.1. The Partnership Council's role will be that of giving advice or making representations to the Welsh Ministers in relation to the Welsh language strategy adopted under section 78 of the Government of

Wales Act 2006 (including the annual Action Plans setting out how the Welsh Government will implement the proposals set out in the strategy).

5.2. Specifically, the Partnership Council will advise and make representations to Welsh Ministers about:
- the Welsh Ministers' Welsh language strategy including its annual action plan;
- the content of annual action plans setting out how the Government will implement the proposals set out in the Welsh language strategy, and progress with regard to their implementation.

5.3 The Partnership Council may also do anything it reasonably considers appropriate for the purpose of giving that advice and making those representations, including considering the evidence available in the field of language policy, and the need for additional evidence.

5.4 The Partnership Council is able to convene task and finish groups and working groups which will assist the Partnership Council in providing advice and making representations to the Welsh Ministers. They will provide regular reports to the Partnership Council on their work.

[ ] Leighton Andrews

Made by the Minister for Education and Skills, one of the Welsh Minsters

21 [ ] September 2012

**SF/LA/2323/12 - DOC 2: Cyngor Partneriaeth y Gymraeg**

**RHEOLAU SEFYDLOG**

## 1. Cyflwyniad

1.1. Sefydlir Cyngor Partneriaeth y Gymraeg ("y Cyngor Partneriaeth") o dan adran 149 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur").

1.2. Mae adran 149 yn gwneud darpariaethau ynghylch sefydlu a chyfansoddiad y Cyngor Partneriaeth a phenodi ei aelodau. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheolau sefydlog ar gyfer y Cyngor Partneriaeth, ar ôl ymgynghori ag aelodau'r Cyngor Partneriaeth.

## 2. Aelodaeth

2.1 Aelodau y Cyngor Partneriaeth yw;

2.1.1 pa un bynnag o Weinidogion Cymru sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg; ac

2.1.2 personau wedi eu penodi gan Weinidogion Cymru o blith

(i) Gweinidogion Cymru,

(ii) Dirprwy Gweinidogion Cymru,

(iii) personau mae'n ymddengys i Weinidogion Cymru fod ganddynt brofiad o faterion yn ymwneud a'r Gymraeg,

(iv) personau y mae'n ymddengys i Weinidogion Cymru fod ganddynt brofiad sy'n berthnasol i roi cyngor neu gyflwyno sylwadau ynghylch y strategaeth iaith Gymraeg a fabwysiadwyd o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (gan gynnwys y cynllun sy'n nodi sut y bydd Gweinidogion Cymru yn cyflawni'r strategaeth) a gwneud unrhyw beth sy'n briodol ym marn y Cyngor Partneriaeth ar gyfer rhoi'r cyngor neu cyflwyno'r cyngor hwnnw.

## 3. Cadeirio cyfarfodydd

3.1. Mae'r Mesur yn darparu mai pa un bynnag o Weinidogion Cymru sydd â chyfrifoldeb dros y Gymraeg ('y Gweinidog cyfrifol') fydd yn

cadeirio'r Cyngor Partneriaeth.

3.2. Os na all y Gweinidog cyfrifol fynychu fe fydd rhaid i'r cyfarfod gael ei ganslo.

3.3. Ond, os bydd y Gweinidog cyfrifol yn methu mynychu ac os na fydd digon o amser i ganslo'r cyfarfod, bydd y Cyngor Partneriaeth yn cael ei gadeirio gan uwch swyddog o Lywodraeth Cymru.

**4. Trefniadau cyfarfodydd**

4.1. Bydd y Cyngor Partneriaeth yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn, yn ystod tymor yr Haf, tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn. Y Gweinidog cyfrifol fydd yn trefnu'r cyfarfodydd a gall drefnu mwy o gyfarfodydd os bydd yn barnu bod eu hangen.

4.2. Gall y Gweinidog cyfrifol wahodd rhai eraill o Weinidogion Cymru i gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth, os bydd materion yn ymwneud a'u portffolio wedi'u cynnwys yn yr agenda.

4.3. Gall swyddogion o Lywodraeth Cymru fynychu o bryd i'w gilydd (fel gwesteion) i gynnig arbenigedd a chyngor i gynorthwyo'r Cyngor Partneriaeth yn ei waith.

4.4. Bydd swyddogion Is-Adran y Gymraeg yn cael mynychu'r cyfarfodydd (fel gwesteion) a chymryd rhan fel y bydd y Gweinidog cyfrifol yn mynnu a bydd yr Uned yn gweithredu fel ysgrifenyddiaeth i'r Cyngor Partneriaeth. Byddant yn dosbarthu cofnodion cyfarfodydd a phapurau yn ôl yr angen.

4.5. Bydd cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn cael eu cynnal mewn swyddfa Llywodraeth Cymru neu'r Cynulliad Cenedlaethol.

4.6. Bydd cyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth yn cael eu cynnal yn breifat, ond gall y Gweinidog cyfrifol wahodd aelodau o'r cyhoedd i annerch y Cyngor Partneriaeth os bydd y Gweinidog yn barnu bod angen.

**5. Cylch gwaith Cyngor Partneriaeth y Gymraeg**

5.1. Rôl y Cyngor Partneriaeth fydd rhoi cyngor neu gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â strategaeth y Gymraeg a fabwysiadwyd o dan adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (gan gynnwys y Cynlluniau Gweithredu blynyddol yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r cynigion a nodwyd yn y

strategaeth).

5.2. Yn benodol, bydd y Cyngor Partneriaeth yn cynghori ac yn cyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru ynghylch:
- strategaeth Gymraeg Gweinidogion Cymru gan gynnwys ei chynllun gweithredu blynyddol;
- cynnwys cynlluniau gweithredu blynyddol yn nodi sut y bydd y Llywodraeth yn cyflawni'r cynigion a nodwyd yn strategaeth y Gymraeg, a chynnydd o ran eu cyflawni.

5.3 Caiff y Cyngor Partneriaeth hefyd wneud unrhyw beth y mae'n ei ystyried yn rhesymol sy'n briodol at ddibenion rhoi'r cyngor hwnnw a chyflwyno'r sylwadau hynny; gan gynnwys ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ym maes polisi iaith, a'r anghenion am dystiolaeth ychwanegol.

5.3. Gall y Cyngor Partneriaeth gynnull grwpiau gorchwyl a gorffen a gweithgorau a fydd yn cynorthwyo y Cyngor Partneriaeth i ddarparu cyngor a chyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru. Bydd y rhain yn rhoi adroddiadau rheolaidd i'r Cyngor Partneriaeth ar eu gwaith.

[ ]
Gwnaed gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

[Dyddiad] 21/9/12